# Prosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf

# Upper Wye Catchment Restoration Project

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



**Mae Prosiect Adfer Dalgylch Gwy Uchaf wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i adfer cyflwr rhan uchaf afon Gwy.**

**The Upper Wye Catchment Restoration Project is funded by Welsh Government to restore the condition of the upper River Wye.**



Dyfrgi Ewropeaidd / European Otter

## Mae afon Gwy yn un o afonydd mwyaf arbennig y DU, ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y ffaith ei bod wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Mae'n gartref i nifer o rywogaethau pwysig, gan gynnwys eogiaid, dyfrgwn, gwangod a herlod, cimychiaid yr afon, yn ogystal â'r planhigyn crafanc-y-frân y dŵr. Mae'r afon hefyd yn cael ei choleddu a'i defnyddio gan gymunedau lleol ac ymwelwyr at ddibenion gweithgareddau awyr agored a lles.

Nod cyffredinol y prosiect hwn yw gwarchod rhywogaethau a gwella cynefinoedd trwy fynd i'r afael â nifer o wahanol fathau o bwysau sy'n effeithio ar yr afon. Diben y prosiect yw:

- **adfer a gwella cynefinoedd yn yr afon, ar lannau'r afon ac yn y dalgylch yn ehangach**
- **lleihau'r gwaddod a'r llygryddion sy'n mynd i mewn i'r afon**
- **gwella gwytnwch yr afon yn wyneb tywydd eithafol a thymheredd cynhesach o ganlyniad i newid hinsawdd**

Mae ardal y prosiect yn cynnwys dalgylch afon Gwy i fyny'r afon o'r Gelli Gandryll. Bydd y gwelliannau a wnawn yn y dalgylch uchaf o fudd i'r afon gyfan.

## Ardal Prosiect Gwy Uchaf

## Upper Wye Project Area




## The Wye is one of the UK's most special rivers, which is reflected by its designation as a Special Area of Conservation (SAC) and a Site of Special Scientific Interest (SSSI).

It is home to several important species including Atlantic salmon, otter, shad, white clawed crayfish and water crowfoot. The river is also loved and used by local communities and visitors for outdoor, wellbeing and cultural activities.

The overall aim of this project is to protect species and enhance habitats by addressing a range of pressures affecting the river. The project aims to:

- **restore and improve habitat in the river, on the river banks and in the wider catchment**
- **reduce sediment and pollutants entering the rivers**
- **improve the resilience of the river to extreme weather events and warmer temperatures resulting from climate change**

The project area covers the Wye catchment upstream of Hay-on-Wye. The improvements we carry out in the upper catchment will benefit the whole river.



Eog Yr Iwerydd / Atlantic Salmon

## Cysylltwch â ni

Os ydych yn dirfeddiannwr, yn denant, neu'n grŵp cymunedol yn ardal uchaf afon Gwy ac os hoffech weithio gyda ni a chymryd rhan, cysylltwch â ni drwy:

## Contact us

If you're a landowner, tenant, or community group in the upper Wye area and you'd like to work with us and get involved, please contact us via:

AdferGwyUchaf@cyfoethnaturiol.cymru
RestoreUpperWye@naturalresources.wales

## Cadwch mewn cysylltiad

Rydym yn ymgysylltu â sefydliadau, grwpiau a chymunedau lleol trwy gyfrwng digwyddiadau lleol, cylchlythyrau a blogiau, ac yn rhoi gwybod am ein cynnydd trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Beth am ein dilyn i weld beth rydyn ni'n ei wneud?

## Keep up to date

We are engaging with local communities, groups and organisations through local events, newsletters and blogs, and posting our progress through social media. Why not like and follow us to see what we are up to?

Dewch o hyd i ni | Find us
@AdferGwyUchaf

**Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni:**
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**

**If you would like this publication in a different format, please let us know:**
**enquiries@naturalresourceswales.gov.uk**
**0300 065 3000**

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
Printed on 100% recycled paper

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Camau gweithredu'r prosiect
# Project actions

### Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â thirfeddianwyr, ffermwyr, cymunedau a sefydliadau lleol i:

- Adfer coridorau afon trwy ffensio a phlannu parthau clustogi
- Creu cynefin yn yr afon trwy gyflwyno deunydd coediog mawr
- Cyflwyno mesurau i leihau llygredd a chadw'r pridd ar y tir
- Cyflwyno mesurau i arafu llif dŵr dros y tir, gan annog y pridd i'w amsugno
- Adfer ac ailgysylltu gorlifdiroedd
- Tynnu neu addasu strwythurau o waith dyn sy'n rhwystro symudiad pysgod a graean
- Cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol sy'n cyfrannu at erydiad y glannau ac sy'n gystadleuaeth rhy gryf i'n planhigion brodorol

Byddwn yn olrhain ein cynnydd trwy gyfrwng rhaglen fonitro, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau megis ffotograffiaeth, dronau ac arolygon ecolegol.

### We will work alongside landowners, farmers, communities and local organisations to:

- Restore river corridors by fencing and planting buffer zones
- Create habitat in the river by introducing large woody material
- Install measures to reduce pollution and keep soil on the land
- Install measures to slow the flow of overland water, encouraging it to soak into the soil
- Restore and reconnect floodplains
- Remove or adapt man-made structures that obstruct fish and gravel movement
- Remove invasive non-native species that contribute to bank erosion and out-compete our native plants

We will track our progress through a monitoring programme, using a variety of techniques such as photography, drones and ecological surveys.

# Cydweithio
# Working together



Monitro iechyd yr afon
Monitoring the health of the river

**Nid yw adfer rhan uchaf afon Gwy yn rhywbeth y gallwn ei gyflawni ar ein pen ein hunain, a bydd cefnogaeth gan gymunedau lleol a thirfeddianwyr yn hollbwysig. Mae sefydliadau ac elusennau eraill eisoes yn gweithio yn y maes hwn, ac rydym yn chwilio am ffyrdd y gallwn wella ac ychwanegu gwerth at waith ein gilydd, a rhannu gwybodaeth a syniadau.**

Restoration of the upper Wye is not something we can achieve alone, and support from local communities and landowners will be crucial. Other organisations and charities are already working in this area, and we are exploring ways that we can enhance and add value to each other's work, and share knowledge and ideas.



Enghraifft o lain glustogi wedi'i ffensio ar hyd afon
Example of a fenced river buffer